PWYLLGOR DIOGELU'R CYHOEDD

DYDD MAWRTH, 3 TACHWEDD 2020

| | |
|---|---|
| Yn bressenol: | Cynghorydd Mackie(Cadeirydd) |
| | Cynghorwyr Sattar, Asghar Ali, Derbyshire, Hudson, Jacobsen, Lancaster, Dianne Rees, Robson a/ac Wood |

12 : YMDDIHEURIADAU AM ABSENOLDEB

Ni dderbyniwyd unrhyw ymddiheuriad am absenoldeb.

13 : DATGAN BUDDIANNAU

Derbyniwyd ymddiheuriadau gan y Cynghorydd Susan Goddard.

14 : MINUTES

Cymeradwywyd cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 6 Hydref 2020 fel cofnod cywir gan y Pwyllgor.

15 : AMODAU GWEITHREDWYR LLOGI PREIFAT

Dan Ddeddf Llywodraeth Leol (Darpariaethau Amrywiol) 1976, gall y Cyngor atodi unrhyw amodau at drwyddedau gweithredwyr llogi preifat y mae'n ystyried yn rhesymol angenrheidiol. Dywedwyd wrth y Pwyllgor fod amodau presennol gweithredwyr llogi preifat yr awdurdod wedi bod ar waith ers blynyddoedd lawer ac mewn ymateb i safonau arfer gorau newydd, a gyhoeddwyd gan yr Adran Drafnidiaeth, roedd swyddogion o'r farn ei bod yn briodol adolygu'r amodau presennol i sicrhau eu bod yn cyd-fynd â'r safonau newydd.

Derbyniodd y Pwyllgor adroddiad. Gofynnwyd i'r Aelodau ystyried disodli amodau presennol y gweithredwyr llogi preifat. Manylir ar amodau presennol y gweithredwyr llogi preifat yn Atodiad A i'r adroddiad a manylwyd ar set arfaethedig ddrafft yn Atodiad B.

Roedd y set newydd o amodau arfaethedig yn blaenoriaethu diogelwch y cyhoedd. Nodwyd crynodeb o elfennau'r amodau newydd yn yr adroddiad. Cyflwynodd y Swyddog Polisi Trwyddedu'r adroddiad a thynnodd sylw at y prif newidiadau yn yr amodau arfaethedig.

Dywedwyd wrth yr Aelodau y daeth nifer o ymatebion i law yn ystod ymgynghoriad â gweithredwyr llogi preifat a nodwyd manylion corff ffurfiol sy'n cynrychioli masnach hefyd yn yr adroddiad.

Croesawodd y Cadeirydd gynrychiolwyr o'r fasnach gweithredwyr llogi preifat i'r cyfarfod. Gwahoddwyd nifer o gynrychiolwyr i gyflwyno sylwadau ynghylch amodau newydd arfaethedig y gweithredwr llogi preifat.

Anerchodd Mr Shammi Raichura o Uber y Pwyllgor. Diolchodd Mr Raichura i'r Pwyllgor am y cyfle i ymgysylltu, a chroesawodd y newidiadau i eiriad amod 1.2 sy'n

caniatáu i gwmnïau fod yn weithredwyr llogi preifat yn ogystal ag unigolion. Cefnogwyd hefyd y diwygiadau i 2.1 mewn perthynas â chyfeiriadau e-bost teithwyr a 2.7 mewn perthynas ag adrodd am gŵyn. Dywedodd Mr Raichura fod Uber eisoes yn cyd-fynd gyda'r gofynion ar gyfer cadw cofnodion gyrwyr a cherbydau fel y nodir yn amod 3.1. Rhannodd Uber adborth hefyd a chroesawodd newidiadau o ran gwiriadau'r Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd, cofnodion archebu, oriau gwaith gyrwyr, yswiriant a rhannu ceir.

Dywedodd David Coral o Ola Cabs fod Ola yn fodlon â'r cyflwyniadau a ddarparwyd ganddynt a'r ymatebion i hynny gan yr awdurdod. Mae Ola yn gwerthfawrogi'r hyblygrwydd a ganiateir drwy ganiatáu i'r cyfeiriad e-bost gael ei gofnodi ar gyfer y cwsmer yn hytrach na'r gofyniad i gofnodi cyfeiriad cartref. Roedd Ola hefyd yn cefnogi'r categoreiddio cwynion a dderbyniwyd. Dywedodd Mr Coral fod y gofyniad am wiriad gan y Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd ar gyfer staff yn cyflwyno rhai heriau i staff sydd wedi'u lleoli dramor yn India, ond maent yn edrych ar wiriad cyfatebol. Dywedwyd wrth yr Aelodau fod gyrwyr Ola yn cael eu hallgofnodi'n awtomatig o’r ap pan fydd cyfnod egwyl.

Anerchodd Mr Des Broster, sy'n cynrychioli Veezu (Dragon Taxis) y Pwyllgor. Canmolodd Mr Broster y Swyddogion Trwyddedu am wrando ar yr ymatebion i'r ymarfer ymgynghori, yn enwedig mewn perthynas â thechnoleg newydd a natur gyfnewidiol y fasnach. O ran adrodd am gwynion, roedd Mr Broster o'r farn nad oedd 48 awr yn rhoi llawer o amser i ymchwilio i gwynion. Gofynnodd am ganiatáu o leiaf 72 awr.

Cododd Mr Broster bryderon bod gyrwyr yn gallu gweithio i wahanol weithredwyr ar wahanol lwyfannau ac felly roedd cadw golwg ar oriau gwaith gyrwyr yn peri rhai anawsterau. Awgrymodd Mr Broster y gellid rhoi rheolaeth reoleiddiol ar waith a fyddai'n caniatáu i yrwyr weithio gydag un gweithredwr. Gweithredir y system hon yn Leeds ac mae Swindon newydd gytuno i weithredu'r un trefniant. Ni fwriedir i'r mesur gyfyngu ar gyfleoedd masnach neu gyflogaeth. Ar hyn o bryd, gall gyrwyr weithredu dau blatfform ar yr un pryd neu newid gweithredwyr pan fydd 'tâl ymchwydd' ar waith. Dywedodd Mr Broster mai mater rheoleiddio yw hwn ac y byddai'r cyhoedd yn elwa o'r rheolaethau hyn. Dywedodd wrth yr Aelodau fod y rheolaethau hyn wedi'u nodi yn eu hymateb i'r ymgynghoriad ond nad oeddent wedi'u cynnwys yn yr amodau arfaethedig terfynol. Gofynnodd Mr Broster i swyddogion ailystyried y mater hwn. Soniodd Mr Broster hefyd am amod 10.1 o ran yswiriant. Gofynnodd i weithredwyr gael eu hystyried fel agwedd ar y gyfundrefn orfodi ac yn gyfnewid am hynny, mae angen i weithredwyr roi ar waith y rheolaethau y cyfeirir atynt uchod.

Siaradodd Mr Yusef Jama ar ran Cynghrair Hacni Caerdydd. Dywedodd Mr Jama fod disgwyliad rhesymol y byddai'r holl yrwyr a gweithredwyr sy'n gweithio mewn ardal leol yn glynu wrth ofynion amodau trwyddedu'r awdurdod lleol.

Gwahoddwyd Mr Lee Ward o Unite i annerch y Pwyllgor. Roedd Mr Ward o'r farn bod yr adroddiad yn ddiffygiol ond bod gan y Pwyllgor gyfle i unioni hynny. Er bod y polisi'n ymwneud â gweithredwyr, cododd Mr Ward bryderon bod amodau ynddo a oedd yn anelu at reoleiddio gyrwyr a cherbydau, megis rheolaethau dros nifer yr oriau y gall gyrrwr weithio. Roedd Mr Ward o blaid y farn mai dim ond gydag un gweithredwr y dylai gyrwyr allu cofrestru ar y tro. Byddai hyn yn cefnogi diogelwch y

cyhoedd pe bai unrhyw ymchwiliad. Awgrymodd Mr Ward y gallai trwydded bapur wreiddiol y gyrrwr gael ei dal gan y gweithredwr.

Dywedwyd wrth yr Aelodau hefyd eu bod yn cael cyfle i ddefnyddio'r polisi arfaethedig i ddiogelu gyrwyr trwyddedig lleol a'r cyhoedd rhag cerbydau sydd wedi'u trwyddedu y tu allan i'r ardal, drwy fynnu mai dim ond i yrwyr a cherbydau a drwyddedwyd gan Gyngor Caerdydd y gall gweithredwyr roi gwaith. Gwnaeth Mr Ward nifer o awgrymiadau pellach hefyd mewn perthynas ag egluro rôl y gyrrwr wrth dderbyn archebion ac egluro'r contract rhwng y gweithredwr a'r cwsmer.

Gwnaeth Mr Steven Toy a oedd yn cynrychioli Unite sylwadau hefyd. Soniodd Mr Toy am y cynnig i gyfyngu ar nifer yr oriau y gall gyrwyr weithio. Mynegwyd pryderon y byddai hyn yn creu 'sefyllfa anwastad' gan y byddai rhai llwyfannau'n cefnogi hyn ond byddai gweithredwyr llai nad ydynt ar y llwyfannau hynny'n ei chael hi'n anodd.

Gofynnodd y Cadeirydd i'r Swyddog Cyfreithiol roi sylwadau ar y materion a godwyd gan y cynrychiolwyr masnach. Dywedwyd wrth yr Aelodau fod yr amodau polisi ar waith i gefnogi'r ddeddfwriaeth bresennol ac nid i ailadrodd y ddeddfwriaeth. Cymerwyd barn y cwnsler annibynnol mewn perthynas â gweithredwyr 'seiliedig ar apiau' a gadarnhaodd nad oedd gweithredwyr o'r fath yn cyflawni unrhyw droseddau. Roedd cyfraith achosion gyfredol hefyd yn cefnogi'r safbwynt hwnnw. Cadarnhaodd y Swyddog Cyfreithiol hefyd y caniateir i'r awdurdod gyfyngu ar nifer yr oriau gwaith ar gyfer gyrwyr.

Cafodd Aelodau wahoddiad i wneud sylwadau, gofyn cwestiynau neu geisio eglurhad pellach am y materion a godwyd. Gofynnodd Aelod sut y byddai'n bosibl rheoli nifer yr oriau y mae gyrwyr yn gweithio os gallant newid platfformau. Dywedodd Rheolwr y Tîm Trwyddedu y byddai'r gweithredwr yn gallu monitro'r oriau y mae gyrrwr yn gweithio iddynt. Roedd hwn yn arf i gyfyngu ar yrwyr sy'n gweithio oriau gormodol. Derbyniwyd bod deddfwriaeth yn caniatáu i yrwyr weithio i weithredwyr lluosog.

Dywedodd y Rheolwr Gweithredol Diogelu'r Cyhoedd nad oes unrhyw reolaethau ar hyn o bryd o ran pa mor hir y gall gyrwyr weithio. Yn y pen draw, roedd hyn yn fater i yrwyr reoli eu hiechyd a'u diogelwch eu hunain. Yr amod a awgrymwyd oedd ymgais gyntaf i fynd i'r afael â'r mater hwn. Argymhellwyd bod yr Aelodau'n cymeradwyo'r amod. Fodd bynnag, os oes gan yr Aelodau bryderon, rhoddwyd ymrwymiad y byddai swyddogion yn ystyried y rhain ac yn cael eu hadolygu yn ddiweddarach. Nododd nifer o Aelodau'r Pwyllgor ei bod yn well ganddynt fod swyddogion yn parhau i fonitro ac adolygu'r mater o yrwyr sy'n gweithio oriau gormodol.

Cododd yr Aelodau bryderon ynghylch y goblygiadau iechyd a diogelwch a achoswyd gan yrwyr sy'n gweithio oriau gormodol. Gofynnodd Aelod a fyddai'n bosibl cyfyngu ar yrwyr yn newid rhwng gweithredwyr, er enghraifft yn ystod unrhyw gyfnod o 24 awr.

Cadarnhaodd y Swyddog Polisi Trwyddedu fod nodyn esboniadol mewn perthynas â chludo cŵn cymorth yn atgoffa gweithredwyr o'u rhwymedigaethau. Dywedwyd wrth yr Aelodau mai dim ond gweithredwyr sy'n gweithio yng Nghaerdydd y gall Cyngor Caerdydd osod amodau arnynt. Cadarnhaodd swyddogion nad oedd dim i atal gweithredwyr awdurdod cyfagos rhag gweithio yng Nghaerdydd.

Gofynnodd Aelod pam nad oedd gweithredwyr yn destun gwiriad manwl gan y Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd. Dywedodd y Rheolwr Trwyddedu, yn wahanol i yrwyr, nad oedd yn ofynnol i weithredwyr gludo plant ac felly nid oedd archwiliad manwl yn gymesur. Disgwylir i yrwyr Caerdydd gael gwiriad manwl o hyd.

Mewn ymateb i bwynt a wnaed gan gynrychiolydd masnach, dywedodd y Rheolwr Trwyddedu nad yw'r swyddogion o'r farn ei bod yn briodol i weithredwyr ddal trwyddedau papur gyrwyr sy'n gweithio iddynt. Dywedodd y Swyddog Cyfreithiol na fyddai dim byd cyfreithiol i atal hynny. Cododd y Rheolwr Trwyddedu bryderon pe bai gweithredwyr yn gallu dal y trwyddedau papur gwreiddiol y byddai hyn yn arwain at ganlyniadau anfwriadol, megis y gweithredwr yn atal y drwydded bapur pe bai anghydfod. Roedd goblygiadau hefyd i yrwyr sy'n cael eu dirymu o ganlyniad i gollfarn neu sy'n cael eu cyhuddo o drosedd ddifrifol. Dywedodd y Rheolwr Gweithredol y byddai amod o'r fath yn newid sylweddol ac y byddai'n cael effaith uniongyrchol ar yrwyr. Pe bai Aelodau'n ystyried gweithredu amod o'r fath yna byddai angen gwneud mwy o waith i ymdrin â rhai o'r materion a godwyd gan y Rheolwr Trwyddedu. Mae swyddogion eisoes wedi ymrwymo i edrych ar oriau gwaith a gellid ystyried y mater hwn ymhellach hefyd.

PENDERFYNWYD -

(1) disodli amodau presennol y gweithredwyr llogi preifat gyda’r amodau arfaethedig a nodir yn Atodiad B yr adroddiad ar unwaith;

(2) caniatáu cyfnod gras o 6 wythnos i weithredwyr llogi preifat presennol mewn perthynas â chydymffurfio â'r amodau a nodir yn Atodiad B.

## 16 : EITEMAU BRYS (OS OES RHAI)

Daeth y cyfarfod i ben am 11.15 am